Heidelberg Materials

# Ein dulliau yng Craig-yr-Hesg

Cymeradwywyd estyniad i chwarel Craig-yr-Hesg gan y Gweinidog dros Newid Hinsawdd ym mis Hydref 2022, yn dilyn ymholiad cyhoeddus a gynhaliwyd yn gynharach y flwyddyn honno. Mae'r gwaith cynnar ar gyfer ardal yr estyniad (gwelwch y map isod) wedi cychwyn bellach, ac mae'r caniatâd i'n gwaith chwarela yn parhau tan 2049.

Rydym wedi ymrwymo i fod yn gymydog da ac rydym eisiau datblygu deialog adeiladol gyda'r bobl leol. Ein nod yw cymryd rôl ragweithiol, gan weithio i sicrhau bod ein gweithredoedd yn sicrhau'r buddion mwyaf i'r gymuned leol.

Yn rhan o hynny, mae'n bwysig ein bod yn rhannu rhagor o wybodaeth am ein dulliau yn chwarel Craig-yr-Hesg fel bod y ffeithiau gan y bobl leol. Rydym eisiau tawelu eu meddyliau bod yr amserlen chwarela dynn a'r mesurau mewnol estynedig sydd ar waith yn golygu nad yw ein gweithredoedd yn achosi unrhyw risg i bobl nac i eiddo.

**Isod, rydym wedi nodi rhagor o fanylion am agweddau allweddol o'n gwaith a sut yr ydym yn rheoli unrhyw effeithiau posibl allai godi o'n gweithredoedd.**

**Allwedd y map**

- Chwarel Craig-yr-Hesg
- Ardal wedi'i chymeradwyo ar gyfer gwaith echdynnu yn y dyfodol



Chwarel Craig-yr-Hesg gydag ardal estyniad gymeradwy

# Ansawdd yr aer

Rydym yn deall ac yn gwybod yn dda am y peryglon llwch ac ansawdd aer posibl a ddaw o chwareli ac rydym yn mynd i'r afael â'r materion hyn gyda rheolyddion rheoli tynn. Yn chwarel Craig-yr-Hesg mae'r rheolyddion hyn yn rhan annatod o'r gweithdrefnau caniatáu cynllunio ac amgylcheddol y mae'r safle'n gweithredu oddi tanynt ac sy'n sicrhau bod y gymuned leol yn parhau wedi ei diogelu.

Rheolir llwch ffo neu niwsans gydag amrywiaeth o fesurau sy'n cynnwys defnyddio tanceri dŵr, ysgeintellau dŵr a golchwyr olwyn i leihau'r llwch, a hefyd greu byndiau sgrinio a choetir newydd ar hyd ffin ardal yr estyniad. Cytunwyd ar y mesurau hyn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (RhCT) yn rhan o Gynllun Rheoli Llwch a Gronynnau a Chynllun Monitro Llwch ar gyfer y safle cyfan. Bydd hyn yn cael ei adolygu'n rheolaidd yn ystod ein gweithredoedd.

Yn ogystal, mae RhCT yn gwneud gwaith monitro ansawdd aer y tu hwnt i ffin y chwarel. Mae'r gwaith hwn, sydd wedi ei ariannu'n rhannol gan Heidelberg Materials, yn cynnwys mesur lefelau'r gronynnau mân, sy'n cynnwys y rhai PM10 a PM2.5. Cesglir y data hwn o leoliad yn Rhodfa Garth, Glyncoch, ac mae'n tynnu sylw at lefelau cyfartalog isel o ddeunydd gronynnog. Mae'r data ar gael i'w weld gan y cyhoedd yn: **www.airquality.gov.wales/air-pollution/site/RHD7#latestdata**

Roedd gwaith monitro ansawdd aer blaenorol a wnaed gennym ni a gan RhCT yn dangos bod lefelau'r gronynnau mân wedi bod lai na hanner y safonau tymor byr a thymor hir sydd wedi eu gosod yn y DU i ddiogelu iechyd dynol.

**I gael rhagor o wybodaeth, gwelwch: www.rctcbc.gov.uk/EN/Business/LicencesandPermits/Pollutionrelatedlicences/RelatedDocuments/RCTCBC2023ProgressReport.pdf**



**Rydym yn gwybod bod si wedi ymledu ymysg aelodau'r gymuned leol yn cysylltu chwarela gyda pheryglon posibl i'r iechyd, yn cynnwys llwch Silica Grisialog Anadladwy (RCS) a/neu silicosis. Mewn ymateb i'r cwestiwn a fydd pobl sy'n byw gerllaw chwarel dan risg o RCS, mae gwybodaeth ar wefan silica diogel IMA-Europe AISBL yn nodi nad oes, gan ddweud hyn:**

“Dim ond o anadlu lefelau uchel o RCS dros flynyddoedd lawer y mae effaith ar y corff, sy'n golygu mai dim ond pobl sy'n gweithio yn yr union fan lle mae'r prosesau diwydiannol sydd mewn perygl. Mae lefel gefndirol naturiol o RCS yn yr aer, ond mae'r lefelau mor isel fel nad yw'n achosi unrhyw risg – ac nid yw chwarel / ffatri / gweithfa gerllaw eich cartref yn cynyddu'r lefelau o RCS y tu hwnt i'r lefel gefndirol naturiol.

Nid yw byw ger chwarel yn eich rhoi chi mewn unrhyw berygl o gael canser.

Mae astudiaethau annibynnol a wnaed yn neilltuol yn y DU gan labordy iechyd a diogelwch y llywodraeth, HSL ar ran y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch (HSE) yn cadarnhau nad yw chwarela'n cael unrhyw effaith arwyddocaol ar ansawdd yr aer y tu allan i ffin y chwarel. Yn ogystal, does dim tystiolaeth i awgrymu unrhyw gysylltiad rhwng chwarela a chlefyd yr ysgyfaint ymysg aelodau'r cyhoedd sy'n byw gerllaw.”

**Gallwch weld gwefan silica diogel IMA-Europe AISBL yn: www.safesilica.eu**

# Ffrwydradau

Mae gan y DU reoliadau tynn iawn yn rheoli ffrwydradau, gyda thechnegau modern wedi eu llunio i leihau dirgryniad a gorwasgedd aer (AOP). Mae amodau o fewn gofynion caniatâd cynllunio a roddwyd i ni‘n gorfodi cyfyngiadau ar ddirgryniad y ddaear yn nhermau brig y cyflymder gronynnau (PPV) a chynnwys mesurau i reoli AOP. Mae gweithredu o fewn y safonau hyn, fel y gwnawn yng Craig-yr-Hesg a‘n holl chwareli‘n golygu nad oes unrhyw risg i bobl neu eiddo.

Gall y ffyrdd y profir y ffrwydradau gael eu siapio gan nifer o ffactorau, yn cynnwys daeareg, dirgryniant, gwasgedd aer, amlder a hyd yn oed y tywydd. Er enghraifft, gall AOP fod yn gyfrifol am y sŵn sy‘n gysylltiedig â ffrwydro – ac yn aml iawn, symudiad yr aer ac nid dirgryniad sy‘n cael ei ‚deimlo‘. Yn yr un modd, gal cwmwl isel chwyddo sŵn y ffrwydro, a gall holltau yn y graig newid y ffordd y mae‘r dirgryniad o‘r ffrwydriad yn gwasgaru.

Mae ymchwil annibynnol a wnaed gan awdurdodau o amgylch y byd i lefelau dirgryniad wedi helpu i ffurfio meini prawf ffrwydro diogel. Dyma‘r Safonau Prydeinig yr ydym yn gweithio iddynt, fel pob gweithiwr chwarel yn y DU:


- BS 5228 Rheoli Sŵn a Dirgryniad ar Safleoedd Adeiladu a Safleoedd Agored;
- BS 6472 Arweiniad i Werthuso Dirgryniad a Deimlir gan Bobl mewn Adeiladau;
- BS 7385 Gwerthuso a Mesur Dirgryniad mewn Adeiladau.

## Dirgryniad

Fel y gwelir yn y diagram isod mae astudiaethau estynedig wedi dangos y byddai angen i ddirgryniad y tir fod yn uwch na lefelau PPV o 15mm/e o leiaf, ar yr hyn sy‘n raddfa logarithmig, i gynhyrchu niwed cosmetig i strwythurau preswyl.

Fodd bynnag, dyma‘r trothwy isaf ac, yn dibynnu ar amledd y dirgryniad, efallai na welir niwed cosmetig nes y bydd yr amledd yn uwch na lefelau o hyd at 50mm/e. Mae ein hamodau cynllunio‘n nodi cyfyngiad o 6mm/e PPV ar gyfer 95% of ffrwydradau a chyfyngiad o 10mm/e ar gyfer yr holl ffrwydradau, y mae‘r ddau yn llawer is na‘r isafswm sy‘n ofynnol i achosi difrod cosmetig.

**Rydym wedi sefydlu grŵp WhatsApp i roi gwybod i bobl am amseroedd y ffrwydradau yng Craig-yr-Hesg. I gofrestru anfonwch neges WhatsApp i 07875 139481.**




Hanes ffrwydro yn chwarel Craig-yr-Hesg

# Sŵn

Mae'r sŵn o weithredoedd chwareli'n cael eu rheoleiddio a'u monitro'n ofalus hefyd. I gyd-fynd â'r arweiniad gan Lywodraeth Cymru (Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1 [MTAN1]) mae'r cyfyngiadau ar sŵn o'n gweithredoedd wedi eu gosod mewn chwe lleoliad dethol, neu dderbynyddion, gerllaw chwarel Craig-yr-Hesg. Mae'r cyfyngiadau yn ystod y dydd yn ymwneud â lefelau'r sŵn cefndir, gyda chyfyngiad uchaf o 55 dB LAeq (amser cyfartalog lefel y sŵn dros un awr). Yn y nos, rhwng 19.00 a 07.00, ni chaiff lefel y sŵn o weithredoedd y chwarel fod yn uwch na 42 dB LAeq yn unrhyw un o'r eiddo derbyn hyn.

Bydd sŵn o weithredoedd o fewn ardal estyniad y chwarel wedi ei leihau drwy osod tirffurfiau sgrinio. Bydd sicrhau bod stepiau'r chwarel o leiaf 7m o uchder yn lliniaru ymhellach ar y sŵn. Mae'r lefelau sŵn ar gyfer gweithredoedd dros dro, fel y rhai sy'n gysylltiedig ag adeiladu'r byndiau sgrinio, wedi eu gosod ar gyfyngiad o 67 dB LAeq, ac mae hyn wedi ei gyfyngu i gyfnod o wyth wythnos ar y mwyaf mewn un flwyddyn galendr.

Bydd effeithiau'r sŵn wedi ei liniaru drwy weithredu Cynllun Rheoli a Monitro Sŵn wedi ei gymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol (LPA) – RCT. Daw'r cynllun yn weithredol gyda dechreuad y gwaith stripio pridd o fewn ardal yr estyniad, a gwneir prawf monitro'r sŵn ddwywaith y flwyddyn am y ddwy flynedd nesaf, ymhob un o'r chwe lleoliad y cyfeiriwyd atynt uchod. Yn dilyn hynny, bydd amlder y profion monitro sŵn yng Nghraig-yr-Hesg wedi ei gytuno gyda'r LPA.



## Traffig a thrafnidiaeth

I ni, mae ymestyn y chwarel yn ymwneud â chadw cyflenwadau diogel o agregau i'w defnyddio mewn gwaith adeiladu. Mae hyn yn golygu y bydd maint y deunydd a dynnir allan a'r symudiadau cysylltiedig gan gerbydau nwyddau trwm yn parhau ar lefelau tebyg i heddiw.

Ar gyfartaledd, mae tua 70 o ddanfoniadau'n gadael Craig-yr-Hesg bob dydd, sy'n cynrychioli 140 o symudiadau cerbydau nwyddau trwm. Mae ein hastudiaethau wedi dangos bod hyn yn cyfrif am tua 1.2% o'r holl draffig ar ddiwrnodau'r wythnos ar Ffordd Berw. Mae'r mwyafrif o gerbydau nwyddau trwm sy'n gysylltiedig â'r chwarel yn teithio yn ôl ac ymlaen i'r cyfeiriad deheuol ar hyd y B4273, A4223 a A470.

Rydym wedi gwneud gwelliannau yn y gorffennol i fynedfa'r chwarel, gan ddatblygu ffordd fynedfa ddwy-ffordd newydd.



# Diogelu‘r amgylchedd

Mae ein hamodau cynllunio ar y safle‘n gofyn cael Cynllun Diogelu Rhywogaethau a Rheoli Cynefinoedd a hefyd Gynllun Rheoli Coetir a Choed, wedi eu cymeradwyo gan yr awdurdod lleol, Rhondda Cynon Taf. Mae‘r cynlluniau hyn a gyflwynwyd wedi eu llunio i ddarparu sgrinio naturiol, lliniaru sŵn a rhwystr ffisegol a choridor bywyd gwyllt/ecolegol.

Bydd mwy na 3,000 o goed newydd wedi eu plannu ar y prif fynd sgrinio ac o amgylch ffiniau dwyreiniol a gogleddol ardal yr estyniad. Rydym hefyd wedi gosod 20 blwch ystlumod ac adar, yn ogystal â 50 bocs nythu i bathewod.

Bydd y priddoedd a‘r gorlwythi a dynnir yn ystod y gwaith echdynnu mewn camau yn ardal yr estyniad yn cael eu storio i‘w defnyddio drwy gydol gwaith adfer graddol y safle, pan fydd wynebau‘r chwarel mewn mannau y gweithiwyd arnynt yn cael eu hadfer i wella gwerth ecolegol a thirwedd y safle.

Yn ogystal, mae Heidelberg Materials wedi ymrwymo i ddyrannu 15 y cant o‘n holl safleoedd chwarel gweithredol fel lle ar gyfer natur erbyn 2030. Mae hyn yn tywys ein cynlluniau yng Craig-yr-Hesg a‘n nod yw gwella‘r ffawna a‘r fflora, yn cynnwys diogelu a gwella coridorau bywyd gwyllt a hyrwyddo adferiad coetir naturiol yn ogystal ag adfywiad naturiol y glaswelltir.

Cawsom hefyd ein cydnabod gyda‘n Dyfarniad Bywyd Chwarel. Mae‘r gystadleuaeth wyddonol ac addysgol hon yn digwydd bob tair blynedd a‘i nod yw codi ymwybyddiaeth o werth ecolegol safleoedd echdynnu a rhannu arferion gorau. Gwelwch www.quarrylifeaward.com

**Gallwch weld ein Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (BAP) ar gyfer Craig-yr-Hesg ar-lein drwy ein gwefan gymunedol (mae dolen dros y dudalen).**

## Adferiad

Rydym yn adnabyddus am ddarparu cynlluniau adfer o‘r radd orau a bydd y gwaith adfer yng Craig-yr-Hesg yn golygu bod byd natur yn goresgyn tir y chwarel unwaith eto.

Fel y dywedwyd o‘r blaen, bydd y priddoedd yn cael eu storio i‘w defnyddio mewn gwaith plannu adferol er mwyn adlewyrchu patrwm presennol y coetir a bydd stepiau a wynebau‘r chwarel yn cael eu hadfer yn raddol yn ystod yr echdynnu mewn camau.

Y dull trosfwaol yw rhoi hwb i‘r fioamrywiaeth drwy greu mosaig o goetir, glaswelltir a rhostir, sy‘n adlewyrchu cymeriad yr ardal.



# Ein chwarel

Mae chwarel Craig-yr-Hesg wedi bod yn weithredol ers 1885. Mae'n cyfrannu mwy na £2 miliwn y flwyddyn i'r economi lleol ac mae'n cyflogi tîm o 22 ar y safle, tra bo 60+ pellach o beirianwyr cynnal a chadw a gyrwyr cerbydau nwyddau trwm yn dibynnu arni i wneud bywoliaeth.

Bydd yr estyniad chwarel sydd wedi ei gymeradwyo ar gyfer 10 miliwn o dunelli pellach o agregau yn sicrhau cyflenwadau parhaus. Mae gwerth uchel i'r garreg a dynnir allan pan fydd wedi'i chaboli i lefel uchel. Mae hyn yn golygu ei bod yn gwrthsefyll llithriad i raddau uchel iawn. Mae felly'n ddewis delfrydol i'w defnyddio ar brif ffyrdd a thraffyrdd ac mae'n cael ei defnyddio ledled de Cymru a thu hwnt.

Rydym yn cefnogi mentrau a rhaglenni lleol yn frwd y mae'r gymuned a'r amgylchedd yn elwa ohonynt. Wrth symud ymlaen, rydym eisiau sefydlu grŵp cyswllt y chwarel i ddatblygu'r deialog parhaus gyda'r gymuned ymhellach.

Ein nod yw sicrhau bod aelodaeth y grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r gymuned leol, cynrychiolwyr wedi eu hethol yn lleol a swyddogion cyngor perthnasol, yn ogystal â chynrychiolaeth ad hoc gan gyrff statudol ac anstatudol perthnasol fel y bo'n briodol.

**Os oes gennych ddiddordeb mewn cynrychioli eich cymuned ar y grŵp yma, cysylltwch â ni ar: craigyrhesgquarry@uk.heidelbergmaterials.com**

## Rhagor o wybodaeth

**Mae rhagor o wybodaeth am ein gweithredoedd yng Craig-yr-Hesg, yn cynnwys cwestiynau cyffredin, ar gael ar ein gwefan: heidelbergmaterials.co.uk/craigyrhesg – neu defnyddiwch y cod QR isod.**

**Mae fersiwn Cymraeg o'r llyfryn gwybodaeth hwn ar gael hefyd ar ein gwefan gymunedol**

